

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru Dynion sy'n maethu

Rhagymadrodd

Gall dynion faethu fel person sengl neu fel rhan o gwpl. Os ydynt yn maethu fel rhan o gwpl, fe allant dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn eu rôl yn maethu neu fe allant gael swydd lawn amser neu ran amser y tu allan i'r cartref.

Efallai mai gofalwyr maeth gwrywaidd yw'r delfryd ymddwyn gwrywaidd cadarnhaol cyntaf y mae plentyn wedi cyfarfod ag ef. Mae byw â gofalwyr maeth gwrywaidd yn rhoi'r cyfle i blant sy'n derbyn gofal archwilio sut i greu perthnasoedd y gallant ymddiried ynddynt gyda dynion ac i gael cysylltiad â dynion sy'n deall eu hanghenion. Mae'n hanfodol bod plant yn tyfu i fyny gyda delweddau cadarnhaol o ddynion sy'n llawn hwyl, yn greadigol, yn ofalgar ac, yn anad dim, yn ddiogel mewn lleoliad domestig.

Er gwaethaf eu rôl sylweddol, mae agweddau cymdeithasol tuag at ddynion mewn rolau gofalu, yn neilltuol gyda phlant, yn aml yn creu heriau. Gallant brofi mwy o ymleiddio, drwgdybiaeth a chamwahaniaethu ar sail rhywedd na merched sy'n maethu.

Delfryd ymddwyn cadarnhaol - perthynas dynion â'r plant maeth

Mae gan ofalwyr maeth gwrywaidd rôl bwysig mewn gofal maeth, naill ai fel gofalwyr sengl neu wrth gynorthwyo'u cymar. Rhydd dynion sy'n maethu y cyfle i blant ddysgu sut i greu perthynas ymddiriedus a diogel â dynion.

Dangosodd ymchwil Simon Newstone o dan y teitl '[Male Foster Carers: What Do We Mean by 'Role Models'?](#)' fod plant yn ffynnu pan fo'r dynion sydd yn eu maethu yn amlygu'r ymddygiadau hyn:

- yn ofalgar, anfygythiol, di-drais
- yn defnyddio grym ac awdurdod yn briodol
- yn 'torri'r mowld'
- yn dangos yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir
- yfed cymdeithasol, rhesymol
- bod yn gyson
- yn treulio amser gyda phlant, yn cynnwys un i un
- yn darparu amgylchedd sefydlog, cariadus
- yn dangos teimladau ac emosiynau (nod dim ond dicter)
- gostyngeiddrwydd
- yn herio ystrydebau

- yn hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol a systemau cred
- yn rhannu gofal a gorchwylion arferol megis coginio.

Rolau a chydraddoldeb rhywedd

Mae gwaith gofalgar, yn neilltuol gyda phlant, yn draddodiadol ac yn ystrydebol wedi'i weld fel gwaith merched. Mae hyn yn aml yn arwain at ragdybiaethau o ran rhywedd ynglŷn â dynion sy'n maethu.

Efallai y caiff dynion sy'n maethu eu cyfarch â drwgdybiaeth, yn neilltuol os oes arnynt eisiau maethu fel dyn sengl. Mae'n rhan o ragdybiaeth cymdeithas am rolau rhywedd y mae angen ei herio a'i newid. Fel rhan o hyn, mae'n beth da gwneud gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol pan ydych yn teimlo eu bod yn eich trin chi'n wahanol i ferched oherwydd eich rhywedd.

Nid yw gwasanaethau maethu bob amser yn ymgysylltu'n effeithiol â dynion sy'n maethu. Mae yna o hyd amseroedd pan fo ar weithwyr cymdeithasol eisiau siarad â'r ddynes mewn cwpwl gwrywaidd-benywaidd sy'n maethu, ac mae hyfforddiant yn tueddu i gael ei drefnu yn seiliedig ar anghenion merched sy'n maethu.

Nid yw'r rhain yn faterion fydd yn newid fwrw nos. Mae gan Y Rhwydwaith Maethu gyhoeddiad ar gyfer gwasanaethau (gweler Adnoddau) ynglŷn â dynion sy'n maethu, a man cychwyn da, pan brofwch gamwahaniaethu yn seiliedig ar rywedd, yw gofyn i'r person neu'r sefydliad ddarllen yr adnodd hwnnw.

Gofalu diogelach

Mae ar bob gofalwr maeth angen meddwl am faterion gofalu diogelach, ac i ofalwyr maeth gwrywaidd, fe all hyn fod yn agwedd neilltuol o heriol o'r rôl. Sut y gallwch chi gydbwysu'r angen i ddiogelu'ch hun, ochr yn ochr â'r angen i ddarparu gofal a phlentyndod normal i'r rheiny rydych yn eu maethu?

Mae ar bawb angen sicrhau bod plant yn ddiogel, yn teimlo'n ddiogel ac nad yw gofalwyr maeth yn rhoi'u hunain mewn sefyllfa lle y gall plentyn gamddeall ymddygiad yr oedolyn. Mae hi'r un mor bwysig nad yw gofalu diogelach yn cael ei droi'n fater dynion.

Gall profiad plentyn o'r gorffennol ei wneud ef/hi i deimlo'n llai diogel gyda dyn ac yn fwy tebygol o gamddehongli ymddygiad dyn. Mae angen rhoi ystyriaeth i hyn wrth gynllunio sut i ofalu am y plentyn. Nid yw osgoi cysylltiad â'r plentyn yn ateb; er lles ei ddyfodol, mae ar y plentyn angen treulio amser â delfryd ymddwyn gwrywaidd cadarnhaol.

Weithiau, efallai y bydd arnoch angen ymddwyn mewn ffordd a ystyrir fel 'mentrus', oherwydd bod anghenion y plentyn yn gofyn am hynny. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n ddoeth trafod y sefyllfa â'ch gweithiwr cymdeithasol, gwneud rhestr o'r hyn y mae arnoch angen ei wneud i ofalu am y plentyn yn ddiogel a gweithredu fel delfryd ymddwyn da, a chael eich gweithiwr cymdeithasol a chithau i lofnodi'r rhestr honno.

Dylai gwasanaethau maethu ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu at ofalwyr maeth gwrywaidd a darparu grŵp cymorth i ddynion fel y gallwch gyfarfod yn rheolaidd â

gofalwyr maeth gwrywaidd eraill am gefnogaeth ac i gyfnewid cynghorion a syniadau.

Bydd asesu, cefnogaeth, hyfforddiant a pharu da yn arbennig o bwysig os ydych yn bwriadu maethu fel gofalwr gwrywaidd sengl, neu fel y prif ofalwr mewn cwpwl.

Trafodwch yr holl faterion hyn yn drylwyr â'ch gwasanaeth maethu, a sicrhewch eich bod yn derbyn y lefel iawn o gymorth i chi ac i'r plentyn a leolir gyda chi. Peidiwch â bod ofn gofyn am gymorth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch gyhoeddiad Y Rhwydwaith Maethu, [Gofalu Diogelach](#).

Cynghorion gan ddynion eraill sy'n maethu

- Byddwch yn fodlon ateb cwestiynau, a thrafodwch unrhyw bryderon am y lleoliad y gall teulu'r plentyn eu mynegi. Gellir datrys llawer o gwestiynau a phryderon gyda chyfathrebu da. Nid yw hyn yn golygu y dylech dderbyn cwestiynau amhriodol neu agweddau camwahaniaethol.
- Dylai cyfathrebu da, cadw cofnodion a thrafodaethau agored am ddehongliad bywyd go iawn o ofalu diogelach eich gwneud i deimlo'n fwy hyderus yn eich rôl.
- Pan fo gweithiwr cymdeithasol yn ffonio ac yn gofyn am gael siarad â'ch cymar, peidiwch â dim ond trosglwyddo'r ffôn i rywun arall yn syth. Gofynnwch beth yw neges yr alwad ffôn, gan efallai ei fod yn fater yn ymwneud â maethu yn hytrach nag yn fater i'ch cymar.
- Os yw cyfarfodydd a hyfforddiant bob amser yn cael eu trefnu pan nad ydych chi ar gael, tynnwch sylw at hyn ac awgrymwch amseroedd mwy priodol.
- Bydd asesu, cefnogaeth, hyfforddiant a pharu da yn arbennig o bwysig os ydych yn bwriadu maethu fel gofalwr gwrywaidd sengl, neu fel y prif ofalwr mewn cwpwl.
- Trafodwch yr holl faterion hyn yn drylwyr â'ch gwasanaeth maethu, a sicrhewch eich bod yn derbyn y lefel iawn o gymorth i chi ac i'r plentyn a leolir gyda chi, a pheidiwch â bod ofn gofyn am gymorth.
- Os nad oes gan eich asiantaeth neu'ch awdurdod lleol gynllun mentora gan gymheiriaid neu gynllun cyfeillio ar gyfer dynion sy'n maethu, awgrymwch eu bod yn dechrau cynllun. Mae ar ddynion angen bod yn gallu siarad â dynion eraill sy'n maethu, yn neilltuol oherwydd bod maethu'n cael ei weld yn aml fel 'rhywbeth i ddynes'.

Rhagor o Adnoddau I ddarllen:

Deilliodd Ilyfr Y Rhwydwaith Maethu, sef 'Men Who Care: Experiences and Reflections from Male Foster Carers', o weithdy adrodd hanesion a weithredir gan

dîm StoryWorks Prifysgol Morgannwg. Mae'n cynnwys hanesion personol sy'n herio'r ystrydebau am ddynion a gofal maeth.

thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/men-who-care.pdf

Mae Dynion yn Ofalwyr Maeth Da Hefyd: Mae Cefnogi Gofalwyr Maeth Gwrywaidd ac Ysbrydoli Hyder yn canolbwyntio ar sut i wneud gofalwyr maeth gwrywaidd deimlo'n fwy cysylltiedig ac yn llai ar yr ymylon o fewn eu gwasanaethau maethu. Ei nod yw helpu gwasanaethau maethu i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u gofalwyr maeth gwrywaidd drwy godi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n eu hwynebu, gan archwilio'r ffyrdd y maent yn cydnabod ac yn cynorthwyo dynion.

Ysgrifennir 'Dynion sy'n Maethu' ar gyfer gwasanaethau i'w helpu i ystyried yn rhesymegol broblemau sy'n wynebu dynion sy'n maethu

thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/men-who-foster-251111.pdf

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth yn wastad yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, cyhoeddiadau, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori hanfodol i aelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn ffonio y tu allan i'r amser hwn, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Y Rhwydwaith Maethu

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead

Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cymorth ac Adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad a chael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth.

thefosteringnetwork.org.uk

Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltwch â

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017